Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

EX370

# Eich tro cyntaf yn y llys? Beth y gallwch ei ddisgwyl

Yn adeilad y llys fe gewch chi:

- staff cwrtais, parod eu cymwynas;
- arwyddion clir i'ch helpu chi i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas; a
- thaflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos.

Os ydych chi yma ar gyfer gwrandawiad, byddwn yn:

- dangos i chi'r rhestr sy'n cynnwys eich achos, a ble a phryd y bydd yn cael ei gynnal;
- trefnu i chi aros mewn lle gwahanol i'r ochr arall a'u tystion;
- delio â'ch achos cyn gynted â phosib. Mae'n bosib na fydd eich achos yn dechrau ar yr union amser a nodwyd, gan fod achosion eraill yn gallu cymryd mwy o amser na'r disgwyl;
- os bydd eich achos yn rhedeg yn hwyr, byddwn yn dweud wrthych chi'n rheolaidd am faint mwy y bydd rhaid i chi aros; ac
- o dan yr amgylchiadau eithriadol pan na fydd achos yn cael ei gynnal, byddwn yn eich rhyddhau cyn gynted â phosib.

Gallwch ffonio'r llys rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Byddwn yn:

- ateb y ffôn yn gyflym ac yn gymwynasgar;
- dweud wrthych pwy sy'n siarad â chi, a
- rhoi ateb clir a fydd o gymorth i chi.

Rydym yn croesawu sylwadau gennych ynghylch sut gallwn wella ein gwasanaeth i chi.

Os oes gennych chi gŵyn am y gwasanaeth rydych wedi'i gael gan staff y llys neu'r cyfleusterau sydd ar gael, rhowch wybod i ni ar unwaith ac fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i ddatrys y broblem yn y fan a'r lle.

Mae gennym drefn gwyno ffurfiol. Gofynnwch i'r staff am gopi o'n taflen '*EX343 - Anhapus â'n gwasanaeth – Beth allwch chi ei wneud?*'

**Ni allwn ddelio â chwynion am benderfyniad a wneir gan farnwr mewn achos penodol. Efallai y bydd modd i chi apelio yn erbyn penderfyniad mewn rhai achosion. Gofynnwch i staff y llys am y daflen** *'EX340 - Rydw i am apelio – Beth ddylwn i wneud?'*

 © Hawlfraint y Goron 2014

HM Courts & Tribunals Service

EX370

# Your first time at court? What you can expect

In the court building you will find:

- polite helpful staff;
- clear signs to help you find your way around; and
- information leaflets on display.

If you are here for a hearing we will:

- show you the list containing your case and where and when it will be heard;
- arrange for you to wait apart from the other side and their witnesses;
- deal with your case as soon as possible. Your case may not start at the exact time given as other cases can sometimes take longer than planned;
- if your case is delayed we will tell you regularly how much longer you may have to wait; and
- in the exceptional circumstances of your case not being heard, we will release you as soon as possible.

You can telephone the court between 9am and 5pm Monday to Friday. We will:

- answer the phone quickly and helpfully;
- tell you who you are speaking to; and
- give a clear and helpful answer.

We welcome your comments on how we can improve our service to you.

If you have a complaint about the service you have received from court staff or the facilities available, please tell us immediately and we will do our best to sort the problem out there and then.

We have a formal complaint procedure, please ask staff for a copy of our leaflet '*EX343 - Unhappy with our service – What can you do?*'

**We cannot deal with complaints about a decision made by a judge in a particular case. You may be able to appeal a decision in certain cases. Ask court staff for the leaflet** *'EX340 - I want to appeal - what should I do?'*



© Crown copyright 2014